Diwedd y Gân …...

Y gobaith yw codi o leiaf £694,000 tuag at ariannu'r prosiect uchelgeisiol hwn er mwyn cyfoethogi bywyd cymunedol yr ardal, a hwyluso gweithgareddau'r plant a'r ieuenctid sy'n cwrdd yma'n rheolaidd. Daw tua £140,000 arall gan aelodau'r Tabernacl eu hunain, mewn rhoddion a gwasanaeth arbenigol di-dâl.

Byddwn yn dibynnu ar haelioni gwahanol ffynonellau sy'n arfer ariannu cynlluniau o'r fath, ond fe fydd cyfraniad pob unigolyn hefyd yn werthfawr iawn i ni.

Diolchwn i chi ymlaen llaw am eich caredigrwydd, a gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen isod i anfon eich rhodd at ein Trysorydd. Os ydych yn talu treth incwm, gofynnir i chi lenwi'r datganiad o rodd cymorth fel ein bod yn medru hawlio 28c yn ychwanegol am bob punt.

Every Penny Counts…...

We hope to raise at least £694,000 towards this ambitious project which will enrich the community life of the area, and facilitate the activities of the children and young people who meet here regularly. Another £140,000 will come from Tabernacl members through their contributions and also through expert advice and services provided in kind.

We will be relying on the generosity of the various funding bodies which are used to supporting plans of this nature, but contributions from individuals will also be greatly appreciated.

We thank you in anticipation of your kindness, and we ask you to use the form below to send your gift to our Treasurer. If you are a taxpayer, please sign the Gift Aid declaration so that we can claim an additional 28p for every pound.

Ffurflen Cyfrannu /Donation Form

Diolch yn fawr am eich rhodd. Dylid gwneud pob siec yn daladwy i "Apêl Capel Tabernacl".
A wnewch chi gwbwlhau'r ffurflen hon a'i hanfon gyda'ch cyfraniad i :
Apêl Capel Tabernacl, 13 Bryn Rhedyn, Tonteg, Pontypridd. CF38 1UG

Thank you for your donation. Cheques should be made payable to "Tabernacl Chapel Appeal". Please complete the form and send it together with your contribution to:
Tabernacl Chapel Appeal, 13 Bryn Rhedyn, Tonteg, Pontypridd. CF38 1UG

Teitl
Title ……

Enw(au) Cyntaf
Forename(s)……..

Cyfenw
Surname…….

Cyfeiriad
Address……..

Côd Post
Post Code…….

E-Bost / *E-mail*……..*Ffôn / Tel:* ……..

DATGANIAD RHODD CYMORTH

CRONFA CAPEL TABERNACL

Hoffwn i'r elusen a enwyd uchod drin y rhodd amgaëedig o £…….. fel Rhodd Cymorth

GIFT AID DECLARATION

TABERNACL CHAPEL FUND

I wish the charity named above to treat the enclosed donation of £…..… as a Gift Aid

Arwyddwyd
Signed……

Dyddiad
Date …….. …..

Tabernacl, Efail Isaf

www.tabernacl.com

APÊL YR ADEILADAU

Rhif Cwmni: 6349041 Cofrestrwyd yng Nghymru

BUILDINGS APPEAL

Company Number: 6349041 Registered in Wales

Mae Tabernacl, Efail Isaf yn gapel bywiog a ffyniannus, gyda 200 o aelodau o blith yr oedolion, a dros 100 o blant a phobl ifanc. Diddorol sylwi mai parau priod ifanc sy'n gyfrifol am y cynnydd mwyaf yn yr aelodaeth yn y blynyddoedd diweddar. Mae gennym Ysgol Sul lewyrchus, ac mae *Teulu Twm,* y sesiwn wythnosol ar gyfer y bobl ifanc, yn enwog am ei waith dyngarol.

Teulu Twm's fair trade shop.

Tylwyth Teg : Siop masnach deg Teulu Twm.

Gwnaeth y capel a'r festri gyfraniad sylweddol i fywyd cymdeithasol ardal eang ers blynyddoedd, a bu'n gartref i nifer o gorau a phartïon lleol, gwahanol gymdeithasau, ysgol feithrin a dosbarthiadau nos. Mae'r capel hefyd yn ganolbwynt i lawer o waith elusennol yn lleol ac ar lefel ehangach.

Yn sgîl y bwrlwm yn hanes y capel fe ddaeth problemau, gan nad yw'r adeiladau presennol yn ateb gofynion heddiw. Gwelwyd bod y festri bellach yn rhy fach ac yn anaddas o ran y cyfleusterau, a bu'n rhaid i nifer o sefydliadau chwilio am gartref newydd. Eu gobaith hwy a ninnau yw y byddant yn dychwelyd wedi inni gwblhau'r prosiect presennol.

Tabernacl, Efail Isaf is a lively, vibrant chapel, with 200 adult members and over 100 children and young people. It is noteworthy that young married couples represent the bulk of the recent increases in membership. We can boast a thriving Sunday School for toddlers and young children, and the popular evening session for teenagers - *Teulu Twm* - undertakes a variety of humanitarian activities.

Over the years, Tabernacl has made a substantial contribution to the cultural life of the village and the buildings have been used for community activities serving a wide area. The chapel has been a home to various choirs, musical groups, societies and evening classes. It has also been the focal point for charity work to serve the local community and beyond.

In the wake of this new groundswell of activities, it has become apparent that the current buildings are too small and too inadequate in terms of the facilities they offer. Several groups have been forced to move out, and it is their wish as well as ours that they will be able to return once we have completed the building project.

Festri'r Tabernacl Tabernacl Vestry

Y teimlad yw fod y cyfyngiadau presennol yn llyffetheirio ein tŵf a'n gweledigaeth, a bydd gwireddu'r prosiect hwn yn cynnig cyfleoedd anturus nid yn unig i aelodau'r capel ond i'r gymuned yn gyffredinol.

Nid oes ysgol nac eglwys blwyf ym mhentref Efail Isaf, a bu cydweithio cyson rhwng y Tabernacl a neuadd y pentref. Bydd uwchraddio ac adnewyddu ein hadeiladau i gwrdd â gofynion deddfwriaethol ac i ateb anghenion yr oes yn denu mudiadau o'r tu allan i wneud rhagor o ddefnydd o'r adnoddau.

Plant y Tabernacl Tabernacl Children

Y bwriad felly yw ymestyn y festri'n sylweddol drwy godi ystafelloedd ychwanegol i wahanol weithgareddau, a thrawsnewid y capel yn awditoriwm gyffrous a fydd yn cynnig rhagor o hyblygrwydd wrth addoli ar y Sul, ac ar yr un pryd yn creu adnodd newydd i'r fro ar gyfer cyngherddau, darlithoedd a chyfarfodydd eraill.

Bydd creu maes parcio newydd yn cynnig hafan ddiogel i deuluoedd sy'n mynychu'r capel a'r festri, gyda mynediad uniongyrchol oddi ar y ffordd fawr.

Rhaid cael arian at hyn. Fodd bynnag, mae'r Tabernacl yn esiampl o lwyddiant yn creu sialens newydd.

The project is necessary to allow Tabernacl to realise its vision and carry out its activities more effectively. We envisage that the developments will be beneficial not only to the chapel members but to the community at large.

Tabernacl

There is no school or parish church in Efail Isaf, and the village hall and Tabernacl have always complemented each other. Upgrading the chapel's facilities, which includes ensuring that legislative requirements are met, will encourage outside organisations to make use of the accommodation.

The project involves extending the vestry considerably as well as building additional rooms for various activities. The chapel itself will be transformed into a modern auditorium which will offer more flexibility for Sunday worship and at the same time Provide a new and attractive facility for concerts, lectures and other cultural events to serve the wider community.

A new car park will offer a safe haven for families attending the chapel and the vestry, with direct access off the main road.

All this requires funding. However, Tabernacl exemplifies the success which creates a new challenge.